
hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru
promoting and celebrating the music of Wales

**TOMOS WILLIAMS**

# Cwmwl Tystion II / Riot!




Recordiau Tŷ Cerdd Records (TCR043)

**Dyddiad Rhyddhau: Dydd Gwener 13 Hydref 2023**

**Gwrandewch yma:** https://promo.theorchard.com/7BZDVSdcLs2n1SpoNAJ0

(gyda'r sengl **'Cardiff Race Riots 1919'** allan ar ddydd Gwener 6 Hydref)

***Cwmwl Tystion II / Riot!*** yw ail bennod prosiect jazz y trwmpedwr a'r cyfansoddwr Tomos Williams sy'n delio gyda digwyddiadau yn hanes a diwylliant Cymru. Mae'r bennod yma yn canolbwyntio ar derfysgoedd yn hanes Cymru, ond mae'r *Riot! Suite* hefyd yn tynnu sylw at anghyfiawnder hiliol a chodi cwestiynau am y syniad o hunaniaeth fel Cymry.

Mae'r band arbennig yn cynnwys dau o gewri'r byd jazz Prydeinig; Soweto Kinch (saxes, rapio) ac Orphy Robinson (vibes, effeithiau electronig) yn ogystal â'r gantores ifanc Eädyth Crawford, a dau o gerddorion cyfarwydd y byd jazz Cymreig, Aidan Thorne (bas) a Mark O'Connor (dryms).

Datblygodd *Cwmwl Tystion II / Riot!* a'r cyfansoddiad newydd 'Riot! Suite' allan o lwyddiant y *Cwmwl Tystion / Witness* gwreiddiol a deithiodd Cymru yn 2019. Cerddorion Cymreig yn unig oedd yn y band yna, tra yn y fersiwn yma roedd Williams eisiau agor y band allan i gynnwys meistri o'r byd jazz Prydeinig yn ogystal â chantores a oedd yn canu yn Gymreig yn y grŵp.

Er daw'r teitl ***Cwmwl Tystion*** o'r Beibl yn wreiddiol, fe'i dyfynnir yn y fan hon o gerdd y bardd, yr heddychwr a'r cenedlaetholwr Waldo Williams (1904-1971), **'Pa Beth yw Dyn?'** ble mae'r bardd yn

gofyn rhai o gwestiynau mawr ei bod. Mae *Cwmwl Tystion* bellach wedi dod yr enw Cymraeg ar gyfer y prosiect parhaus hwn.

Mae'r cyfansoddiad ***Riot! Suite*** yn cynnwys unawdau ffyrnig, byrfyfyrio rhydd, cyfnodau o grŵf, rapio, y felan, alawon gwerin ac emyn Gymraeg, ochr yn ochr ag eiliadau o dynerwch lleisiol, yn dechrau a gorffen gyda fersiwn ddigyfeiliant o'r alaw werin 'Aderyn Du'. Cyfeiria'r gerddoriaeth at Derfysg Merthyr 1831 a Tonypandy 1910, yn ogystal â Therfysg Caerdydd 1919. Teyrnged i Mahmood Mattan yw'r symudiad ola', y dyn olaf i'w ddienyddio yng Nghymru yn 1952 er ei fod yn ddieuog, (mae yna fwy o fanylion cefndirol yn llyfryn y CD).

Cafodd y ***Riot! Suite*** ei enwebu ar gyfer gwobr Ivors Academy yn y categori ensembl jazz yn 2022, a mae'r gwaith wedi cael ei ddylanwadu a'i ysbrydoli gan gerddoriaeth Wadada Leo Smith, Jon Zorn, Don Cherry a cyfres gwych *Coin Coin* Matana Roberts.

Dywed Tomos Williams: "Yn dilyn llwyddiant *Cwmwl Tystion / Witness* yn 2019, fe wnes i ystyried y gall syniad craidd 'Cwmwl Tystion' cael ei ddatblygu ar gyfer set gwahanol o gerddorion. Felly yn ystod y cyfnod clo fe wnes i feddwl am y cerddorion hoffwn i weithio gyda, a oedd â naws gwleidyddol, neu haen ychwanegol i'w gerddoriaeth. Dewisiadau amlwg oedd Orphy Robinson a Soweto Kinch – dwi wedi bod yn gwrando ar ei gerddoriaeth ers blynyddoedd ac roedd wir yn wefr cael perfformio gyda nhw dro ar ôl tro ar y daith. Rydw i hefyd yn cyflwyno llais anhygoel Eädyth Crawford i gynulleidfa newydd. Mae Eädyth yn cynrychioli'r tô ifanc o gantorion Cymreig sy'n ddi-ofn yn eu creadigrwydd – mae'n wir yn dalent ryfeddol."

Teithiodd y band o amgylch Cymru a pherfformiodd yn Llundain ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2021. Recordiwyd yr albwm yn fyw yng Nghanolfan Taliesin Abertawe; Pontio, Bangor; a'r Lost ARC Rhaeadr Gwy. Fe ategwyd pob perfformiad gan gelfyddyd weledol fyw Simon Proffitt.

Meddai Cyfarwyddwr Tŷ Cerdd Deborah Keyser: "Rwyf wir wrth fy modd ein bod wedi gallu ychwanegu *Cwmwl Tystion II / Riot!* at ein catalog Recordiau Tŷ Cerdd. Mae'n teimlo'n bwysicach nag erioed i ddathlu cyfansoddwyr a pherfformwyr ac rydym mor falch o ddod ag amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa ehangach. Mae'r cyfnod ers y pandemig wedi rhoi ffocws enfawr ar yr holl wasanaethau rydyn ni'n eu cynnig i'r gymuned gerddoriaeth yng Nghymru, yn ogystal ag arddangos yr anghydbwysedd a'r allgáu sydd wedi bod yn y sector celfyddydau a ariennir. Yn ogystal â threfnu rhwydweithiau hanfodol a dosbarthu arian, mae Tŷ Cerdd wedi bod yn ehangu ein mentrau i ddatblygu artistiaid ac yn ceisio cyrraedd yn bellach gyda'n gwaith. Dyma ein mantra: 'Os ydych yn creu cerddoriaeth yng Nghymru, mae'n gerddoriaeth Gymreig!' Nid yw ein rôl yn meithrin a datblygu cerddoriaeth yng Nghymru erioed wedi teimlo mor hanfodol ag ydyw heddiw."

**Nodiadau i olygyddion**

Bydd **Cwmwl Tystion II / Riot!** yn cael ei rhyddhau ar 13 Hydref 2023 ar CD ac yn ddigidol. Bydd y CD ar gael i'w brynu ar Siop Tŷ Cerdd ac i ffrydio dros blatfformau.

**Cerddorion**
Tomos Williams (trwmped, cyfansoddwr), Soweto Kinch (sax, rapio), Eädyth Crawford (llais, effeithiau electronig), Orphy Robinson (vibes, effeithiau electronig), Aidan Thorne (bas), Mark O'Connor (drymiau), Simon Proffitt (celf weledol fyw).

**TŶ CERDD**
**Music Centre Wales**
*hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru*
promoting and celebrating the music of Wales

**Teitlau symudiadau** (mae holl destun y llyfryn CD yn ddwyieithog):

1. Cadw tŷ mewn cwmwl tystion / Keeping house in a cloud of witnesses [11:42]
2. Merthyr Rising 1831 [15:59]
3. Tonypandy Riots 1910 [07:05]
4. Tredegar Riots 1911 [05:35]
5. Beth yw Byw? / What is Living? [10:50]
6. Cardiff Race Riots 1919 [04:42]
7. Mahmood Mattan 1952 [05:34]

*Cyfanswm: 01:01:29*

**Perfformiadau**
Bydd **Cwmwl Tystion II / Riot!** yn derbyn un perfformiad byw olaf yng Ngŵyl **Llais** y WMC (Canolfan Mileniwm Cymru) 14 Hydref 2023, 19:30.

Cenhadaeth **Tŷ Cerdd** yw hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru. Trwy ei weithgareddau a thrwy weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, mae Tŷ Cerdd yn gweithio i:

- ddod â cherddoriaeth Cymru i gynulleidfaoedd ar draws ein cenedl, ac i weddill y byd
- diogelu etifeddiaeth cerddoriaeth Cymru o'r gorffennol, ac ysgogi datblygu cyfansoddiadau newydd, ledled y genres cerddorol
- galluogi cymunedau a chynulleidfaoedd cynyddol amrywiol i wneud cerddoriaeth a mwynhau cerddoriaeth yng Nghymru

**Manylion cyswllt**
Shakira Mahabir – Rheolwr Label: **shakira.mahabir@tycerdd.org**
Tomos Williams: **tomos.williams@gmail.com**